



OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

WELSH STATUTORY
INSTRUMENTS

2021 Rhif 416 (Cy. 135)

2021 No. 416 (W. 135)

ANIFEILIAID, CYMRU

ANIMALS, WALES

Rheoliadau Lles Anifeiliaid
(Trwyddedu Gweithgareddau sy'n
Ymwneud ag Anifeiliaid) (Cymru)
2021

The Animal Welfare (Licensing of
Activities Involving Animals)
(Wales) Regulations 2021

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae'r Rheoliadau hyn yn darparu ar gyfer trwyddedu personau sy'n ymwneud yng Nghymru â gwerthu anifeiliaid fel anifeiliaid anwes.

Mae rheoliad 3 yn pennu'r gweithgareddau hyn at ddibenion adran 13(1) o Ddeddf Lles Anifeiliaid 2006 ("Deddf 2006") ac yn darparu i awdurdodau lleol fod yr awdurdodau trwyddedu. Canlyniad y pennu hwn, yn ddarostyngedig i feini prawf cymhwyso, yw bod rhaid i unrhyw berson sy'n dymuno cynnal unrhyw un neu ragor o'r gweithgareddau hyn yng Nghymru gael trwydded oddi wrth yr awdurdod lleol o dan y Rheoliadau hyn. Mae'r gofynion hyn yn disodli'r gofynion, yng Nghymru, i gael trwydded o dan Ddeddf Anifeiliaid Anwes 1951.

Mae person sy'n cynnal unrhyw un neu ragor o'r gweithgareddau hyn yng Nghymru heb drwydded o dan y Rheoliadau hyn yn cyflawni trosedd o dan adran 13(6) o Ddeddf 2006 ac yn agored i gael ei garcharu am gyfnod hyd at 6 mis, neu i gael dirwy, neu'r ddau. O dan adran 30 o Ddeddf 2006, caiff awdurdodau lleol erlyn am unrhyw drosedd o dan y Ddeddf honno.

Mae Rhan 2 o'r Rheoliadau yn nodi sut y caiff person wneud cais i'r awdurdod lleol am drwydded ac yn nodi materion y mae rhaid i awdurdod lleol fod wedi ei fodloni mewn cysylltiad â hwy wrth ystyried rhoi trwydded neu adnewyddu trwydded. Mae'n darparu i awdurdod lleol godi ffioedd i dalu'r costau y mae'n mynd iddynt wrth gyflawni'r swyddogaeth hon,

EXPLANATORY NOTE

(This note is not part of the Regulations)

These Regulations provide for the licensing of persons involved in Wales in selling animals as pets.

Regulation 3 specifies these activities for the purposes of section 13(1) of the Animal Welfare Act 2006 ("the 2006 Act") and provides for local authorities to be the licensing authorities. The consequence of this specification is that, subject to qualifying criteria, any person wishing to carry on any of these activities in Wales must obtain a licence from the local authority under these Regulations. These requirements replace the requirements, in Wales, to obtain a licence under the Pet Animals Act 1951.

A person who carries on any of these activities in Wales without a licence under these Regulations commits an offence under section 13(6) of the 2006 Act and is liable to imprisonment for a term of up to 6 months, a fine or both. Under section 30 of the 2006 Act, local authorities may prosecute for any offence under that Act.

Part 2 of the Regulations sets out how a person may apply to the local authority for a licence and sets out matters in respect of which a local authority must be satisfied when considering the grant or renewal of a licence. It provides for a local authority to charge fees to cover the costs it incurs in performing this function, considering a licence holder's compliance with these

gan ystyried cydymffurfedd deiliad trwydded â'r Rheoliadau hyn, gorfodi a gweinyddu. Mae'n pennu bod rhaid i awdurdod lleol osod amodau trwydded penodol ar bob trwydded a roddir neu a adnewyddir. Mae'n darparu bod rhaid i awdurdod lleol benodi arolygydd pan fydd yn ystyried bod hynny'n briodol, at ddiben sicrhau cydymffurfedd ag amodau'r drwydded. Mae'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol roi sylw i ganllawiau a ddyroddir gan Weinidogion Cymru wrth gyflawni eu swyddogaethau o dan y Rheoliadau hyn. Mae'n darparu pwerau i arolygwyr gymryd samplau o anifeiliaid.

Mae Rhan 3 yn nodi'r amgylchiadau a'r gweithdrefnau y caniateir atal dros dro, amrywio neu ddirymu trwydded oddi tanynt. Mae hefyd yn darparu bod torri amod trwydded neu rwystro unrhyw arolygydd a benodir at ddibenion gorfodi'r Rheoliadau hyn yn drosedd ac mae'n cymhwyso pwerau perthnasol yn dilyn euogfarn sydd wedi eu cynnwys yn Neddf 2006.

Mae Rhan 4 yn darparu ar gyfer apelau yn erbyn penderfyniadau trwyddedu gan awdurdodau lleol.

Mae Rhan 5 yn gwneud diddymiadau, diwygiadau canlyniadol a darpariaeth arbed.

Mae Rhan 6 yn nodi bod rhaid i awdurdodau lleol ddarparu gwybodaeth benodol i Weinidogion Cymru.

Mae Atodlen 1 yn disgrifio pob math o weithgaredd trwyddedadwy.

Mae Atodlen 2 yn nodi'r amodau cyffredinol sy'n gymwys i'r holl weithgareddau trwyddedadwy.

Mae Atodlen 3 yn nodi'r amodau penodol sy'n gymwys i bob gweithgaredd trwyddedadwy.

Mae Atodlen 4 yn rhestru personau na chaniateir iddynt wneud cais am drwydded.

Mae Atodlen 5 yn darparu ar gyfer diddymiadau a diwygiadau canlyniadol.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn yng Nghymru. Gellir cael copi oddi wrth Swyddfa'r Prif Swyddog Milfeddygol, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ neu drwy e-bostio cais i: LlesAnifeiliaidAnwes@llyw.cymru.

Regulations, enforcement and administration. It specifies that a local authority must attach certain licence conditions to each licence granted or renewed. It provides that a local authority must appoint an inspector when it considers it appropriate, for the purpose of ensuring that the licence conditions are being complied with. It requires a local authority to have regard to guidance issued by the Welsh Ministers in carrying out their functions under these Regulations. It provides powers for inspectors to take samples from animals.

Part 3 sets out the circumstances and procedures under which a licence may be suspended, varied or revoked. It also provides that the breach of a condition of a licence or the obstruction of any inspector appointed for the purposes of enforcement of these Regulations is an offence and applies relevant post-conviction powers contained in the 2006 Act.

Part 4 provides for appeals against licensing decisions by local authorities.

Part 5 makes repeals, consequential amendments and saving provision.

Part 6 sets out that local authorities must provide certain information to the Welsh Ministers.

Schedule 1 describes each type of licensable activity.

Schedule 2 sets out the general conditions that apply to all licensable activities.

Schedule 3 sets out the specific conditions that apply to each licensable activity.

Schedule 4 lists persons who may not apply for a licence.

Schedule 5 provides for repeals and consequential amendments.

The Welsh Ministers' Code of Practice on the carrying out of Regulatory Impact Assessments was considered in relation to these Regulations. As a result, a regulatory impact assessment has been prepared as to the likely costs and benefits of complying with these Regulations in Wales. A copy can be obtained from the Office of the Chief Veterinary Officer, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ or by emailing a request to: CompanionAnimalWelfare@gov.wales.

2021 Rhif 416 (Cy. 135)

2021 No. 416 (W. 135)

ANIFEILIAID, CYMRU

ANIMALS, WALES

**Rheoliadau Lles Anifeiliaid
(Trwyddedu Gweithgareddau sy'n
Ymwneud ag Anifeiliaid) (Cymru)
2021**

**The Animal Welfare (Licensing of
Activities Involving Animals)
(Wales) Regulations 2021**

Gwnaed 24 Mawrth 2021
Yn dod i rym 10 Medi 2021

Made 24 March 2021
Coming into force 10 September 2021

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod cenedlaethol priodol o ran Cymru⁽¹⁾, yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir gan adran 13(2), (7), (8) a (10) o Ddeddf Lles Anifeiliaid 2006⁽²⁾, a Rhannau 1 a 3 o Atodlen 1 iddi.

The Welsh Ministers, as the appropriate national authority in relation to Wales⁽¹⁾, make the following Regulations in exercise of the powers conferred by section 13(2), (7), (8) and (10) of, and Parts 1 and 3 of Schedule 1 to, the Animal Welfare Act 2006⁽²⁾.

Yn unol ag adran 13(9) o'r Ddeddf honno, mae Gweinidogion Cymru wedi ymgynghori â'r personau hynny yr ymddengys iddynt hwy eu bod yn cynrychioli buddiannau y mae'r Rheoliadau hyn yn ymwneud â hwy fel yr oeddent yn ystyried ei bod yn briodol.

In accordance with section 13(9) of that Act, the Welsh Ministers have consulted those persons appearing to them to represent interests with which these Regulations are concerned as they considered appropriate.

Yn unol ag adran 61(2) o'r Ddeddf honno⁽³⁾, gosodwyd drafft o'r offeryn hwn gerbron Senedd Cymru ac fe'i cymeradwywyd ganddi drwy benderfyniad.

In accordance with section 61(2) of that Act⁽³⁾, a draft of this instrument has been laid before, and approved by resolution of, Senedd Cymru.

(1) Mae "the appropriate national authority" ("yr awdurdod cenedlaethol priodol") wedi ei ddiffinio yn adran 62(1) o Ddeddf Lles Anifeiliaid 2006 (p. 45). Mae'r swyddogaethau a roddir i Gynulliad Cenedlaethol Cymru bellach wedi eu breinio yng Ngweinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32), a pharagraffau 30 a 32 o Atodlen 11 iddi.

(2) 2006 p. 45.

(3) Yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, a pharagraff 34 o Atodlen 11 iddi, mae'r cyfeiriad yn adran 61(2) at "House of Parliament" yn cynnwys Senedd Cymru.

(1) The "appropriate national authority" is defined in section 62(1) of the Animal Welfare Act 2006 (c. 45). Functions conferred on the National Assembly for Wales are now vested in the Welsh Ministers by virtue of section 162 of, and paragraphs 30 and 32 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c. 32).

(2) 2006 c. 45.

(3) By virtue of section 162 of, and paragraph 34 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006, the reference in section 61(2) to "House of Parliament" includes Senedd Cymru.

PART 1

Cyflwyniad

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Lles Anifeiliaid (Trwyddedu Gweithgareddau sy'n Ymwneud ag Anifeiliaid) (Cymru) 2021.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn dod i rym ar 10 Medi 2021.

(3) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru, ac eithrio paragraff 2 o Atodlen 5 sy'n gymwys o ran Cymru a Lloegr.

Dehongli

2. Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr “amod cyffredinol” (“*general condition*”) yw'r amodau a nodir yn Atodlen 2;

ystyr “amodau penodol perthnasol” (“*relevant specific conditions*”) mewn perthynas â'r gweithgaredd o werthu anifeiliaid fel anifeiliaid anwes (neu gyda'r bwriad o'u hailwerthu'n ddiweddarach fel anifeiliaid anwes) fel a ddisgrifir ym mharagraff 2 o Atodlen 1, yw'r amodau a nodir yn Atodlen 3;

ystyr “amodau trwydded” (“*licence conditions*”) yw—

(a) yr amodau cyffredinol, a

(b) yr amodau penodol perthnasol;

ystyr “anifail anwes” (“*pet*”) yw anifail a gedwir yn bennaf neu'n barhaol, neu y bwriedir ei gadw'n bennaf neu'n barhaol, gan berson ar gyfer—

(a) diddordeb personol,

(b) cwmniath,

(c) dibenion addurnol, neu

(d) unrhyw gyfuniad o baragraffau (a) i (c);

ystyr “awdurdod lleol” (“*local authority*”) yw'r cyngor ar gyfer sir neu fwrdeistref sirol yng Nghymru;

ystyr “cath fach” (“*kitten*”) yw cath sy'n iau na 6 mis oed;

ystyr “ci bach” (“*puppy*”) yw ci sy'n iau na 6 mis oed;

ystyr “y Ddeddf” (“*the Act*”) yw Deddf Lles Anifeiliaid 2006;

ystyr “gweithgaredd trwyddedadwy” (“*licensable activity*”) yw gweithgaredd a ddisgrifir ym mharagraff 2 o Atodlen 1;

ystyr “gweithredwr” (“*operator*”) yw unigolyn—

PART 1

Introduction

Title, commencement and application

1.—(1) The title of these Regulations is the Animal Welfare (Licensing of Activities Involving Animals) (Wales) Regulations 2021.

(2) These Regulations come into force on 10 September 2021.

(3) These Regulations apply to Wales except paragraph 2 of Schedule 5 which applies to both England and Wales.

Interpretation

2. In these Regulations—

“the Act” (“*y Ddeddf*”) means the Animal Welfare Act 2006;

“adult dog” (“*ci llawndwff*”) means a dog which is not less than 6 months old;

“general condition” (“*amod cyffredinol*”) means the conditions set out in Schedule 2;

“kitten” (“*cath fach*”) means a cat aged less than 6 months;

“licence” (“*trwydded*”), except as the context otherwise requires in regulation 10(1)(b) or where more specifically provided, means a licence to carry on a licensable activity granted or renewed under these Regulations and cognate expressions are to be construed accordingly;

“licence conditions” (“*amodau trwydded*”) means—

(a) the general conditions, and

(b) the relevant specific conditions;

“licensable activity” (“*gweithgaredd trwyddedadwy*”) means an activity described in paragraph 2 of Schedule 1;

“local authority” (“*awdurdod lleol*”) means the council for a county or county borough in Wales;

“operator” (“*gweithredwr*”) means an individual who—

(a) carries on, attempts to carry on or knowingly allows to be carried on a licensable activity, or

(b) where a licence has been granted or renewed, is the licence holder;

“pet” (“*anifail anwes*”) means an animal mainly or permanently, or intended to be mainly or permanently, kept by a person for—

(a) personal interest,

- (a) sy'n cynnal y gweithgaredd trwyddedadwy, sy'n ceisio cynnal y gweithgaredd trwyddedadwy, neu sy'n caniatáu yn fwriadol i'r gweithgaredd trwyddedadwy gael ei gynnal, neu

- (b) pan fo trwydded wedi ei rhoi neu ei hadnewyddu, sy'n ddeiliad y drwydded;

ystyr "ci llawndwf" ("adult dog") yw ci nad ydyw'n iau na 6 mis oed;

ystyr "milfeddyg" ("veterinary surgeon") yw person a gofrestrir yn y gofrestr milfeddygon neu yn y gofrestr filfeddygol atodol, a gedwir o dan Ddeddf Milfeddygon 1996(1);

ystyr "trwydded" ("licence"), ac eithrio fel y mae'r cyd-destun yn mynnu fel arall yn rheoliad 10(1)(b) neu pan ddarperir yr ystyr yn fwy penodol, yw trwydded i gynnal gweithgaredd trwyddedadwy a roddir neu a adnewyddir o dan y Rheoliadau hyn, ac mae ymadroddion cytras i'w dehongli yn unol â hynny.

- (b) companionship,

- (c) ornamental purposes, or

- (d) any combination of paragraphs (a) to (c);

"puppy" ("*ci bach*") means a dog aged less than 6 months;

"relevant specific conditions" ("*amodau penodol perthnasol*") means, in relation to the activity of selling animals as pets (or with a view to their being later resold as pets) as described in paragraph 2 of Schedule 1, the conditions set out in Schedule 3;

"veterinary surgeon" ("*milfeddyg*") means a person registered in the register of veterinary surgeons, or the supplementary veterinary register, kept under the Veterinary Surgeons Act 1996(1).

Trwyddedu gweithredwyr

3.—(1) Mae pob gweithgaredd trwyddedadwy yn weithgaredd penodedig at ddibenion adran 13(1) o'r Ddeddf.

(2) Yr awdurdod lleol yw'r awdurdod trwyddedu ar gyfer unrhyw weithgaredd trwyddedadwy a gynhelir mewn mangre yn ei ardal.

Licencing of operators

3.—(1) Each licensable activity is a specified activity for the purposes of section 13(1) of the Act.

(2) A local authority is the licensing authority for any licensable activity carried on in premises in its area.

RHAN 2

Rhoi, adnewyddu ac amrywio trwydded â chydysyniad ac arolygu mangre

Amodau rhoi neu adnewyddu trwydded

4.—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys—

- (a) pan fo awdurdod lleol wedi cael cais ysgrifenedig oddi wrth weithredwr i roi neu adnewyddu trwydded i gynnal gweithgaredd trwyddedadwy ar fangre yn ardal yr awdurdod lleol, a
- (b) pan fo'r cais yn rhoi'r wybodaeth honno sy'n ofynnol gan yr awdurdod lleol.

PART 2

Grant, renewal and variation with consent of a licence and inspection of premises

Conditions of grant or renewal of a licence

4.—(1) This regulation applies where—

- (a) a local authority has received from an operator an application in writing for the grant or renewal of a licence to carry on a licensable activity on premises in the local authority's area, and
- (b) the application gives such information as the local authority has required.

(1) 1971 p. 80.

(1) 1971 c. 80.

(2) Rhaid i'r awdurdod lleol—

- (a) penodi un neu ragor o arolygwyr sy'n meddu ar gymwysterau addas i arolygu unrhyw fangre y mae'r gweithgaredd trwyddedadwy, neu unrhyw ran ohono, yn cael ei gynnal neu i'w gynnal arni, a
- (b) yn dilyn yr arolygiad hwnnw, roi trwydded i'r gweithredwr, neu adnewyddu trwydded y gweithredwr, yn unol â'r cais, os yw'r awdurdod lleol wedi ei fodloni—
 - (i) y caiff amodau'r drwydded eu bodloni,
 - (ii) bod unrhyw ffi briodol wedi ei thalu yn unol â rheoliad 12, a
 - (iii) bod rhoi neu adnewyddu'r drwydded yn briodol ar ôl ystyried yr adroddiad a gyflwynir iddo yn unol â rheoliad 9.

(3) Rhaid i awdurdod lleol atodi i bob trwydded a roddir neu a adnewyddir—

- (a) yr amodau cyffredinol, a
- (b) yr amodau penodol perthnasol.

(4) Wrth ystyried pa un a gaiff amodau'r drwydded eu bodloni, rhaid i awdurdod lleol ystyried ymddygiad y ceisydd fel gweithredwr y gweithgaredd trwyddedadwy y mae'r cais am roi neu adnewyddu trwydded yn ymwneud ag ef, pa un a yw'r ceisydd yn berson addas a phriodol i fod yn weithredwr y gweithgaredd hwnnw ac unrhyw amgylchiadau perthnasol eraill.

(5) Ni chaniateir i awdurdod lleol roi trwydded i weithredwr, neu adnewyddu trwydded gweithredwr, o dan unrhyw amgylchiadau ac eithrio'r rhai a ddisgrifir yn y Rheoliadau hyn.

(6) Mae pob trwydded a roddir neu a adnewyddir mewn perthynas ag unrhyw un neu ragor o'r gweithgareddau trwyddedadwy hyn yn ddarostyngedig i amodau'r drwydded.

Cyfnod trwydded

5. Caiff awdurdod lleol roi neu adnewyddu trwydded am unrhyw gyfnod hyd at 1 flwyddyn.

Pŵer i gymryd samplau o anifeiliaid

6. Caiff arolygydd, at ddibenion sicrhau y cydymffurfir ag amodau'r drwydded, gymryd samplau ar gyfer profion labordy o unrhyw anifeiliaid ar fangre a feddiennir gan weithredwr.

(2) The local authority must—

- (a) appoint one or more suitably qualified inspectors to inspect any premises on which the licensable activity or any part of it is being or is to be carried on, and
- (b) following that inspection, grant a licence to the operator, or renew the operator's licence, in accordance with the application if it is satisfied that—
 - (i) the licence conditions will be met,
 - (ii) any appropriate fee has been paid in accordance with regulation 12, and
 - (iii) the grant or renewal is appropriate having taken into account the report submitted to it in accordance with regulation 9.

(3) A local authority must attach to each licence granted or renewed—

- (a) the general conditions, and
- (b) the relevant specific conditions.

(4) In considering whether the licence conditions will be met, a local authority must take account of the applicant's conduct as the operator of the licensable activity to which the application for the grant or renewal relates, whether the applicant is a fit and proper person to be the operator of that activity and any other relevant circumstances.

(5) A local authority must not grant a licence to an operator, or renew an operator's licence, in any circumstances other than those described in these Regulations.

(6) All licences granted or renewed in relation to any of these licensable activities are subject to the licence conditions.

Period of licence

5. A local authority may grant or renew a licence for any period up to 1 year.

Power to take samples from animals

6. An inspector may, for the purposes of ensuring the licence conditions are being complied with, take samples for laboratory testing from any animals on premises occupied by an operator.

Dyletswydd i gynorthwyo o ran cymryd samplau o anifeiliaid

7. Rhaid i weithredwr gydymffurfio ag unrhyw gais rhesymol gan arolygydd i hwyluso adnabod ac archwilio anifail a chymryd samplau yn unol â rheoliad 6 ac, yn benodol, rhaid iddo drefnu i anifail gael ei atal mewn ffordd addas os gofynnir iddo wneud hynny gan arolygydd.

Amrywio neu ddirymu trwydded ar gais deiliad trwydded, neu â chydysniad deiliad trwydded

8. Caiff awdurdod lleol ar unrhyw adeg amrywio neu ddirymu trwydded—

- (a) ar gais ysgrifenedig deiliad y drwydded, neu
- (b) ar ei gymhelliad ei hun, gyda chydysniad ysgrifenedig deiliad y drwydded.

Adroddiad yr arolygydd

9.—(1) Pan fo awdurdod lleol yn trefnu arolygiad yn unol â rheoliad 4(2)(a), rhaid iddo drefnu i'r arolygydd gyflwyno adroddiad iddo.

(2) Rhaid i adroddiad yr arolygydd—

- (a) cynnwys gwybodaeth am y gweithredwr, unrhyw fangre berthnasol, unrhyw gofnodion perthnasol, cyflwr unrhyw anifeiliaid, ac unrhyw faterion perthnasol eraill, a
- (b) datgan pa un a yw'r arolygydd yn ystyried y caiff amodau'r drwydded eu bodloni ai peidio.

Personau na chaniateir iddynt wneud cais am drwydded

10.—(1) Ni chaniateir i'r personau a ganlyn wneud cais am drwydded mewn cysylltiad ag unrhyw weithgaredd trwyddedadwy—

- (a) person a restrir yn berson anghymwys ym mharagraffau 2 i 8 o Atodlen 4 pan fo'r terfyn amser ar gyfer unrhyw apêl yn erbyn yr anghymwyso hwnnw wedi dod i ben neu, os cyflwynwyd apêl, pan fo'r apêl honno wedi ei gwrthod;
- (b) person a restrir ym mharagraff 1 o Atodlen 4 yn berson a oedd yn ddeiliad trwydded a ddirymwyd pan fo'r terfyn amser ar gyfer unrhyw apêl yn erbyn y dirymu hwnnw wedi dod i ben neu, os cyflwynwyd apêl, pan fo'r apêl honno wedi ei gwrthod.

(2) Mae unrhyw drwydded a roddir neu a adnewyddir, neu a ddelir, gan berson a grybwyllir ym mharagraff (1)(a) neu (b) wedi ei dirymu yn awtomatig.

Duty to assist in the taking of samples from animals

7. An operator must comply with any reasonable request of an inspector to facilitate the identification and examination of an animal and the taking of samples in accordance with regulation 6 and, in particular, must arrange the suitable restraint of an animal if so requested by an inspector.

Variation or revocation of a licence on the application, or with the consent, of a licence holder

8. A local authority may at any time vary or revoke a licence—

- (a) on the application in writing of the licence holder, or
- (b) on its own initiative, with the consent in writing of the licence holder.

Inspector's report

9.—(1) Where a local authority arranges an inspection pursuant to regulation 4(2)(a), it must arrange for the submission to it of a report by the inspector.

(2) The inspector's report must—

- (a) contain information about the operator, any relevant premises, any relevant records, the condition of any animals and any relevant matter, and
- (b) state whether or not the inspector considers that the licence conditions will be met.

Persons who may not apply for a licence

10.—(1) The following persons may not apply for a licence in respect of any licensable activity—

- (a) a person listed as a disqualified person in paragraphs 2 to 8 of Schedule 4 where the time limit for any appeal against that disqualification has expired or where, if an appeal was made, that appeal was refused;
- (b) a person listed in paragraph 1 of Schedule 4 as having held a licence which was revoked where the time limit for any appeal against that revocation has expired or where, if an appeal was made, that appeal was refused.

(2) Any licence granted or renewed, or held by, a person mentioned in paragraph (1)(a) or (b) is automatically revoked.

Marwolaeth deiliad trwydded

11.—(1) Os bydd deiliad trwydded yn marw, bernir bod y drwydded wedi ei rhoi i gynrychiolwyr personol y deiliad trwydded blaenorol hwnnw, neu wedi ei hadnewyddu mewn cysylltiad â chynrychiolwyr personol y deiliad trwydded blaenorol hwnnw.

(2) O dan yr amgylchiadau a ddisgrifir ym mharagraff (1), mae'r drwydded i barhau mewn grym am 3 mis gan ddechrau â dyddiad marwolaeth deiliad blaenorol y drwydded neu am ba hyd bynnag yr oedd i barhau mewn grym oni bai am y farwolaeth (pa gyfnod bynnag yw'r byrraf) ond mae'n parhau i fod yn ddarostyngedig i'r darpariaethau yn Rhan 2.

(3) Rhaid i'r cynrychiolwyr personol hysbysu yn ysgrifenedig yr awdurdod lleol a roddodd neu a adnewyddodd y drwydded mai hwy yw deiliaid y drwydded bellach o fewn cyfnod o 28 o ddiwrnodau sy'n dechrau â dyddiad marwolaeth deiliad blaenorol y drwydded.

(4) Os yw'r cynrychiolwyr personol yn methu â hysbysu'r awdurdod lleol yn unol â hynny o fewn y cyfnod a bennir ym mharagraff (3), bydd y drwydded yn peidio â chael effaith pan ddaw'r cyfnod hwnnw i ben.

(5) Caiff yr awdurdod lleol a roddodd neu a adnewyddodd y drwydded, ar gais y cynrychiolwyr personol, estyn y cyfnod a bennir ym mharagraff (2) am hyd at 3 mis os yw wedi ei fodloni bod angen yr estyniad at ddiben dirwyn i ben ystad deiliad blaenorol y drwydded a bod hynny'n briodol o dan yr holl amgylchiadau.

Ffioedd

12.—(1) Caiff awdurdod lleol godi'r ffioedd hynny y mae'n ystyried eu bod yn briodol am—

- (a) ystyried cais i roi, adnewyddu neu amrywio trwydded gan gynnwys unrhyw arolygiad sy'n ymwneud â'r ystyried hwnnw, ac ar gyfer rhoi, adnewyddu neu amrywio trwydded,
- (b) costau disgwylidiedig rhesymol ystyried cydymffurfedd deiliad y drwydded â'r Rheoliadau hyn ac amodau'r drwydded y mae deiliad y drwydded yn ddarostyngedig iddynt o dan amgylchiadau ac eithrio'r rhai a ddisgrifir yn is-baragraff (a) gan gynnwys unrhyw arolygiad sy'n ymwneud â'r ystyried hwnnw,
- (c) costau disgwylidiedig rhesymol gorfodi mewn perthynas ag unrhyw weithgaredd trwyddedadwy gan weithredwr didrwydded, a
- (d) costau disgwylidiedig rhesymol cydymffurfio â rheoliad 26.

Death of a licence holder

11.—(1) In the event of the death of a licence holder, the licence is deemed to have been granted to, or renewed in respect of, the personal representatives of that former licence holder.

(2) In the circumstances described in paragraph (1), the licence is to remain in force for 3 months beginning with the date of the death of the former licence holder or for as long as it was due to remain in force but for the death (whichever period is shorter) but remain subject to the provisions in Part 2.

(3) The personal representatives must notify in writing the local authority which granted or renewed the licence that they are now the licence holders within 28 days beginning with the date of the death of the former licence holder.

(4) If the personal representatives fail so to notify the local authority within the period specified in paragraph (3), the licence ceases to have effect on the expiry of that period.

(5) The local authority which granted or renewed the licence may, on the application of the personal representatives, extend the period specified in paragraph (2) for up to 3 months if it satisfied that the extension is necessary for the purpose of winding up the estate of the former licence holder and is appropriate in all the circumstances.

Fees

12.—(1) A local authority may charge such fees as it considers necessary for—

- (a) the consideration of an application for the grant, renewal or variation of a licence including any inspection relating to that consideration, and for the grant, renewal or variation,
- (b) the reasonable anticipated costs of consideration of a licence holder's compliance with these Regulations and the licence conditions to which the licence holder is subject in circumstances other than those described in sub-paragraph (a) including any inspection relating to that consideration,
- (c) the reasonable anticipated costs of enforcement in relation to any licensable activity of an unlicensed operator, and
- (d) the reasonable anticipated costs of compliance with regulation 26.

(2) Ni chaniateir i'r ffi a godir am ystyried cais i roi, adnewyddu neu amrywio trwydded ac ar gyfer unrhyw arolygiad sy'n ymwneud â'r ystyried hwnnw fod yn fwy na chostau rhesymol yr ystyried hwnnw a'r arolygiad cysylltiedig.

Canllawiau

13. Rhaid i awdurdod lleol, wrth gyflawni ei swyddogaethau o dan y Rheoliadau hyn, roi sylw i unrhyw ganllawiau a ddyroddir gan Weinidogion Cymru.

RHAN 3

Gorfodi a hysbysiadau

Seiliau dros atal trwydded dros dro, amrywio trwydded heb gydsyniad neu ddirymu trwydded

14. Caiff awdurdod lleol, heb unrhyw ofyniad i sicrhau cydsyniad deiliad y drwydded, benderfynu atal dros dro, amrywio neu ddirymu trwydded ar unrhyw adeg os yw wedi ei fodloni—

- (a) na chydymffurfir ag amodau'r drwydded,
- (b) y torrwyd y Rheoliadau hyn,
- (c) bod gwybodaeth a roddir gan ddeiliad y drwydded yn ffug neu'n gamarweiniol,
- (d) bod hynny'n angenrheidiol i ddiogelu lles anifail, neu
- (e) na fyddai deiliad y drwydded wedi gallu gwneud cais am drwydded newydd yn unol â rheoliad 10.

Y weithdrefn ar gyfer atal dros dro neu amrywio heb gydsyniad

15.—(1) Ac eithrio fel y darperir fel arall yn y rheoliad hwn, mae atal dros dro neu amrywio trwydded yn dilyn penderfyniad o dan reoliad 14 yn cael effaith ar ddiwedd cyfnod o 7 niwrnod gwaith sy'n dechrau â'r dyddiad y dyroddir hysbysiad am y penderfyniad i ddeiliad y drwydded neu, os nad yw'r dyddiad hwnnw yn ddiwrnod gwaith, y diwrnod gwaith nesaf.

(2) Os yw hynny'n angenrheidiol i ddiogelu lles anifail, caiff yr awdurdod lleol bennu yn yr hysbysiad am ei benderfyniad bod yr atal dros dro neu'r amrywio yn cael effaith ar unwaith.

(3) Mewn perthynas â phenderfyniad i atal dros dro neu amrywio trwydded, rhaid—

- (a) hysbysu deiliad y drwydded yn ysgrifenedig amdano,

(2) The fee charged for the consideration of an application for the grant, renewal or variation of a licence and for any inspection relating to that consideration must not exceed the reasonable costs of that consideration and related inspection.

Guidance

13. A local authority must have regard in the carrying out of its functions under these Regulations to such guidance as may be issued by the Welsh Ministers.

PART 3

Enforcement and notices

Grounds for suspension, variation without consent or revocation of a licence

14. A local authority may, without any requirement for the licence holder's consent, decide to suspend, vary or revoke a licence at any time on being satisfied that—

- (a) the licence conditions are not being complied with,
- (b) there has been a breach of these Regulations,
- (c) information supplied by the licence holder is false or misleading,
- (d) it is necessary to protect the welfare of an animal, or
- (e) the licence holder would not be able to apply for a new licence in accordance with regulation 10.

Procedure for suspension or variation without consent

15.—(1) Except as otherwise provided in this regulation, the suspension or variation of a licence following a decision under regulation 14 has effect at the end of a period of 7 working days beginning with the date on which notice of the decision is issued to the licence holder or, if that date is not a working day, the next working day.

(2) If it is necessary to protect the welfare of an animal, the local authority may specify in the notice of its decision that the suspension or variation has immediate effect.

(3) A decision to suspend or vary a licence must—

- (a) be notified to the licence holder in writing,

- (b) datgan seiliau'r awdurdod lleol dros yr atal dros dro neu'r amrywio,
- (c) datgan pa bryd y bydd yn cael effaith,
- (d) pennu mesurau y mae'r awdurdod lleol yn ystyried eu bod yn angenrheidiol i unioni'r seiliau hynny, ac
- (e) esbonio hawl deiliad y drwydded i gyflwyno sylwadau ysgrifenedig yn unol â pharagraff (4) a rhoi manylion y person y caniateir cyflwyno'r sylwadau hynny iddo, ac erbyn diwedd pa ddyddiad y mae rhaid i'r sylwadau hynny ddod i'w law.

(4) Caiff deiliad y drwydded gyflwyno sylwadau ysgrifenedig y mae rhaid iddynt ddod i law'r awdurdod lleol o fewn cyfnod o 7 niwrnod gwaith sy'n dechrau â dyddiad dyroddi'r hysbysiad am y penderfyniad o dan reoliad 14 i atal dros dro neu amrywio'r drwydded neu, os nad yw'r dyddiad hwnnw yn ddiwrnod gwaith, y diwrnod gwaith nesaf.

(5) Ac eithrio mewn perthynas â hysbysiadau o dan baragraff (2), pan fo deiliad trwydded yn cyflwyno sylwadau ysgrifenedig sy'n dod i law'r awdurdod lleol o fewn y cyfnod a bennir ym mharagraff (4), nid yw'r atal dros dro neu'r amrywio i gael effaith oni bai bod yr awdurdod lleol, ar ôl ystyried y sylwadau, yn atal y drwydded dros dro neu'n ei hamrywio yn unol â pharagraff (6)(a).

(6) O fewn 7 niwrnod gwaith sy'n dechrau â'r dyddiad y mae unrhyw sylwadau a gyflwynir yn unol â pharagraff (5) yn dod i law, rhaid i'r awdurdod lleol, ar ôl ystyried y sylwadau—

- (a) atal dros dro neu amrywio'r drwydded,
- (b) canslo ei benderfyniad o dan reoliad 14 i atal dros dro neu amrywio'r drwydded,
- (c) cadarnhau atal dros dro neu amrywio'r drwydded o dan baragraff (2), neu
- (d) adfer y drwydded os yw wedi ei hatal dros dro, neu ganslo amrywio'r drwydded os yw wedi ei hamrywio, o dan baragraff (2).

(7) Rhaid i'r awdurdod lleol ddyroddi i ddeiliad y drwydded hysbysiad ysgrifenedig am ei benderfyniad o dan baragraff (6) a'r rhesymau drosto o fewn 7 niwrnod gwaith sy'n dechrau â'r dyddiad y mae unrhyw sylwadau a gyflwynir yn unol â pharagraff (4) yn dod i law neu, os nad yw'r dyddiad hwnnw yn ddiwrnod gwaith, sy'n dechrau â'r diwrnod gwaith nesaf.

(8) Mae penderfyniad yr awdurdod lleol o dan baragraff (6) i gael effaith pan fo'n cyflwyno ei hysbysiad o dan baragraff (7).

(9) Mae paragraff (10) yn gymwys os yw'r awdurdod lleol yn methu â chydymffurfio â pharagraff (6) neu (7).

- (b) state the local authority's grounds for suspension or variation,
- (c) state when it comes into effect,
- (d) specify measures that the local authority considers are necessary in order to remedy the grounds, and
- (e) explain the right of the licence holder to make written representations in accordance with paragraph (4) and give details of the person to whom such representations may be made and the date by the end of which they must be received.

(4) The licence holder may make written representations which must be received by the local authority within 7 working days beginning with the date of issue of notice of the decision under regulation 14 to suspend or vary the licence or, if that date is not a working day, the next working day.

(5) Except in relation to notices under paragraph (2), where a licence holder makes written representations which are received by the local authority within the period specified in paragraph (4), the suspension or variation is not to have effect unless the local authority, after considering the representations, suspends or varies the licence in accordance with paragraph (6)(a).

(6) Within 7 working days beginning with the date of receipt of any representations made in accordance with paragraph (5), the local authority must, after considering the representations—

- (a) suspend or vary the licence,
- (b) cancel its decision under regulation 14 to suspend or vary the licence,
- (c) confirm the suspension or variation of the licence under paragraph (2), or
- (d) reinstate the licence if it has been suspended, or cancel its variation if it has been varied, under paragraph (2).

(7) The local authority must issue to the licence holder written notice of its decision under paragraph (6) and the reasons for it within 7 working days beginning with the date of receipt of any representations made in accordance with paragraph (4) or, if that date is not a working day, beginning with the next working day.

(8) The local authority's decision under paragraph (6) is to have effect on service of its notice under paragraph (7).

(9) Paragraph (10) applies if the local authority fails to comply with paragraph (6) or (7).

(10) Pan fo'r paragraff hwn yn gymwys, ar ôl 7 niwrnod gwaith sy'n dechrau â'r dyddiad y mae unrhyw sylwadau a gyflwynir yn unol â pharagraff (4) yn dod i law neu, os nad yw'r dyddiad hwnnw yn ddiwrnod gwaith, sy'n dechrau â'r diwrnod gwaith nesaf—

- (a) bernir bod trwydded a ataliwyd dros dro o dan baragraff (2) wedi ei hadfer;
- (b) bernir bod trwydded a amrywiwyd o dan baragraff (2) yn cael effaith fel pe na bai wedi ei hamrywio;
- (c) bernir bod trwydded a ataliwyd dros dro o dan baragraff (6)(a) wedi ei hadfer;
- (d) bernir bod trwydded a amrywiwyd o dan baragraff (6)(a) yn cael effaith fel pe na bai wedi ei hamrywio;
- (e) bernir bod unrhyw drwydded a ddelir gan ddeiliad y drwydded ac eithrio trwydded a ataliwyd dros dro neu a amrywiwyd o dan baragraff (2) neu (6)(a) y penderfynodd yr awdurdod lleol ei hatal dros dro neu ei hamrywio o dan reoliad 14 yn parhau mewn grym ac nad yw wedi ei hamrywio felly.

(11) Unwaith y mae trwydded wedi ei hatal dros dro am 28 o ddiwrnodau, rhaid i'r awdurdod lleol, ar y diwrnod gwaith nesaf—

- (a) adfer y drwydded heb ei hamrywio,
- (b) amrywio'r drwydded a'i hadfer wedi ei hamrywio, neu
- (c) dirymu'r drwydded.

(12) Os yw'r awdurdod lleol yn methu â chydymffurfio â pharagraff (11), bernir bod y drwydded wedi ei hadfer heb ei hamrywio gan gael effaith ar unwaith.

Adfer trwydded a ataliwyd dros dro gan awdurdod lleol

16.—(1) Rhaid i awdurdod lleol adfer trwydded a ataliwyd dros dro drwy gyflwyno hysbysiad ysgrifenedig unwaith y mae wedi ei fodloni bod y seiliau a bennwyd yn yr hysbysiad atal dros dro wedi eu hunioni, neu y cânt eu hunioni.

(2) Pan fo awdurdod lleol yn adfer trwydded o dan baragraff (1), caiff lleihau'r cyfnod y mae wedi ei hadfer ar ei gyfer.

Hysbysiad dirymu

17.—(1) Mewn perthynas â phenderfyniad dirymu, rhaid—

- (a) hysbysu deiliad y drwydded yn ysgrifenedig amdano,

(10) Where this paragraph applies, after 7 working days beginning with the date of receipt of any representations made in accordance with paragraph (4) or, if that date is not a working day, beginning with the next working day—

- (a) a licence suspended under paragraph (2) is to be deemed to be reinstated;
- (b) a licence varied under paragraph (2) is to be deemed to have effect as if it had not been so varied;
- (c) a licence suspended under paragraph (6)(a) is to be deemed to be reinstated;
- (d) a licence varied under paragraph (6)(a) is to be deemed to have effect as if it had not been so varied;
- (e) any licence held by the licence holder other than a licence suspended or varied under paragraph (2) or (6)(a) which the local authority decided to suspend or vary under regulation 14 is to be deemed to remain in force and not to be so varied.

(11) Once a licence has been suspended for 28 days, the local authority must on the next working day—

- (a) reinstate it without varying it,
- (b) vary and reinstate it as varied, or
- (c) revoke it.

(12) If the local authority fails to comply with paragraph (11), the licence is to be deemed to have been reinstated without variation with immediate effect.

Reinstatement of a suspended licence by a local authority

16.—(1) A local authority must reinstate a suspended licence by way of written notice once it is satisfied that the grounds specified in the notice of suspension have been or will be remedied.

(2) Where a local authority reinstates a licence under paragraph (1), it may reduce the period for which it is reinstated.

Notice of revocation

17.—(1) A revocation decision must—

- (a) be notified in writing to the licence holder,

- (b) datgan seiliau'r awdurdod lleol dros ddirymu, ac
- (c) rhoi hysbysiad am hawl deiliad y drwydded i apelio i lys ynadon a'r cyfnod o dan reoliad 23 y caniateir cyflwyno apêl o'r fath o'i fewn.

(2) Mae'r penderfyniad yn cael effaith pan gyflwynir yr hysbysiad.

Rhwystro arolygwyr

18. Ni chaniateir i berson rwystro yn fwriadol arolygydd a benodir at ddibenion gorfodi'r Rheoliadau hyn wrth arfer unrhyw bwerau a roddir gan y Ddeddf neu oddi tani.

Troseddau

19.—(1) Mae'n drosedd i berson, heb awdurdod cyfreithlon neu esgus cyfreithlon—

- (a) torri amod trwydded;
- (b) methu â chydymffurfio â rheoliad 7 neu 18.

(2) Mae person sy'n cyflawni trosedd o dan baragraff (1) yn agored, o'i euogfarnu'n ddiannod, i ddirwy.

Pwerau mynediad

20. Rhaid trin torri amod trwydded fel trosedd berthnasol at ddibenion adran 23 o'r Ddeddf (mynd i fangre a'i chwilio o dan warant mewn cysylltiad â throseddau).

Pwerau ar ôl euogfarnu

21. Mae'r pwerau perthnasol ar ôl euogfarnu sydd wedi eu cynnwys yn adrannau 34 a 42 o'r Ddeddf yn gymwys mewn perthynas ag euogfarn am drosedd o dan reoliad 19.

Hysbysiadau

22.—(1) Caniateir i'r awdurdod lleol ddiwygio, atal dros dro neu ddirymu yn ysgrifenedig ar unrhyw adeg unrhyw hysbysiad a ddyroddir ganddo o dan y Rheoliadau hyn.

(2) Caniateir cyflwyno hysbysiad i berson—

- (a) drwy ei draddodi i'r person,
- (b) drwy ei adael yng nghyfeiriad post cyfredol neu hysbys diwethaf y person neu ei anfon drwy'r post i'r cyfeiriad post hwnnw, neu
- (c) drwy ei anfon mewn neges e-bost i gyfeiriad e-bost cyfredol neu hysbys diwethaf y person.

- (b) state the local authority's grounds for revocation, and
- (c) give notice of the licence holder's rights of appeal to a magistrates' court and the period under regulation 23 within which such an appeal may be brought.

(2) The decision has effect on service of the notice.

Obstruction of inspectors

18. A person must not intentionally obstruct an inspector appointed for the purposes of the enforcement of these Regulations in the exercise of any powers conferred by or under the Act.

Offences

19.—(1) It is an offence for a person, without lawful authority or excuse—

- (a) to breach a licence condition;
- (b) to fail to comply with regulation 7 or 18.

(2) A person who commits an offence under paragraph (1) is liable on summary conviction to a fine.

Powers of entry

20. Breach of a licence condition must be treated as a relevant offence for the purposes of section 23 of the Act (entry and search under warrant in connection with offences).

Post-conviction powers

21. The relevant post-conviction powers contained in sections 34 and 42 of the Act apply in relation to a conviction for an offence under regulation 19.

Notices

22.—(1) Any notice issued by a local authority under these Regulations may be amended, suspended or revoked by the local authority in writing at any time.

(2) A notice may be served on a person by—

- (a) personal delivery,
- (b) leaving it or sending it by post to the person's current or last known postal address, or
- (c) emailing it to the person's current or last known email address.

RHAN 4

Apelau

Apelau

23.—(1) Caiff unrhyw weithredwr sydd wedi ei dramgwyddo gan benderfyniad gan awdurdod lleol i wrthod rhoi neu adnewyddu trwydded, neu'r penderfyniad i ddirymu trwydded, apelio i lys ynadon.

(2) Mae'r weithdrefn mewn apêl i lys ynadon o dan baragraff (1) ar ffurf cwyn, ac mae Deddf Llysoedd Ynadon 1980(1) yn gymwys i'r achos.

(3) Y cyfnod pan ganiateir dwyn apêl yw 28 o ddiwrnodau gan ddechrau â'r diwrnod drannoeth y dyddiad y cyflwynir hysbysiad am y penderfyniad.

RHAN 5

Diddymiadau, diwygiadau canlyniadol a darpariaeth arbed

Diddymiadau a diwygiadau canlyniadol

24. Mae Atodlen 5 (diddymiadau a diwygiadau canlyniadol) i gael effaith.

Darpariaeth arbed

25. Bydd unrhyw drwydded sydd heb ddod i ben a roddir yn unol â darpariaethau Deddf Anifeiliaid Anwes 1951(2) yn parhau mewn grym am weddill ei chyfnod yn ddarostyngedig i ddarpariaethau'r Ddeddf honno fel yr oedd yn cael effaith ar y dyddiad perthnasol.

RHAN 6

Darparu gwybodaeth i Weinidogion Cymru

Darparu gwybodaeth i Weinidogion Cymru

26.—(1) Rhaid i bob awdurdod lleol ddarparu'r wybodaeth a ganlyn yn ysgrifenedig i Weinidogion Cymru—

- (a) nifer y trwyddedau mewn grym yn ei ardal ar bob dyddiad cyfeirio, a
- (b) lefel gyfartalog y ffioedd a godwyd gan yr awdurdod lleol am drwyddedau a roddwyd neu a adnewyddwyd ganddo ym mhob cyfnod cyfeirio.

(1) 1980. p. 43.

(2) 1951 p. 35 (14 & 15 Geo 6).

PART 4

Appeals

Appeals

23.—(1) Any operator who is aggrieved by a decision by a local authority to refuse to grant or renew, or the decision to revoke, a licence may appeal to a magistrates' court.

(2) The procedure on an appeal to a magistrates' court under paragraph (1) is by way of complaint, and the Magistrates' Courts Act 1980(1) applies to the proceedings.

(3) The period within which an appeal may be brought is 28 days beginning with the day following the date on which the decision is notified.

PART 5

Repeals, consequential amendments and saving provision

Repeals and consequential amendments

24. Schedule 5 (repeals and consequential amendments) is to have effect.

Saving provision

25. Any unexpired licence granted in accordance with the provisions of the Pet Animal Act 1951(2) continues in force for the remainder of its term subject to the provisions of that Act as it had effect on the relevant date.

PART 6

Provision of information to the Welsh Ministers

Provision of information to the Welsh Ministers

26.—(1) Each local authority must provide the following information to the Welsh Ministers in writing—

- (a) the number of licences in force in its area on each reference date, and
- (b) the average level of fees it has charged for licences it has granted or renewed in each reference period.

(1) 1980 c. 43.

(2) 1951 c. 35 (14 & 15 Geo 6).

(2) Rhaid i bob awdurdod lleol ddarparu'r wybodaeth i Weinidogion Cymru—

- (a) ar ffurf electronig, neu sicrhau ei bod yn hygyrch i Weinidogion Cymru ar ffurf electronig, a
- (b) heb fod yn hwyrach na'r 31 Mai nesaf yn dilyn y dyddiad cyfeirio perthnasol.

(3) Yn y rheoliad hwn—

ystyr “cyfnod cyfeirio” (“*reference period*”) yw'r cyfnod sy'n dechrau â 10 Medi 2021 ac sy'n gorffen â 31 Mawrth 2022 a phob cyfnod dilynol o 12 mis sy'n dechrau â 1 Ebrill;

ystyr “dyddiad cyfeirio” (“*reference date*”) yw 31 Mawrth.

(2) Each local authority must provide the information to the Welsh Ministers—

- (a) in electronic form, or secure that it is accessible to the Welsh Ministers in electronic form, and
- (b) no later than the next 31 May following the relevant reference date.

(3) In this regulation—

“reference date” (“*dyddiad cyfeirio*”) means 31 March;

“reference period” (“*cyfnod cyfeirio*”) means the period beginning with 10 September 2021 and ending with 31 March 2022 and each subsequent period of 12 months beginning with the 1 April.

Lesley Griffiths

Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig,
un o Weinidogion Cymru
24 Mawrth 2021

Minister for Environment, Energy and Rural Affairs,
one of the Welsh Ministers
24 March 2021

Gweithgareddau trwyddedadwy

RHAN 1 Prawf busnes

1. Mae'r amgylchiadau y mae rhaid i awdurdod lleol eu hystyried wrth benderfynu pa un a yw gweithgaredd yn cael ei gynnal wrth gynnal busnes at ddibenion yr Atodlen hon yn cynnwys, er enghraifft, pa un a yw'r gweithredwr—

- (a) yn gwneud unrhyw werthiant drwy'r gweithgaredd, neu fel arall yn cynnal y gweithgaredd gyda'r bwriad o wneud elw, neu
- (b) yn ennill unrhyw gomisiwn neu ffi o'r gweithgaredd.

RHAN 2 Gwerthu anifeiliaid fel anifeiliaid anwes

2. Mae gwerthu anifeiliaid fel anifeiliaid anwes (neu gyda'r bwriad o'u hailwerthu yn ddiweddarach fel anifeiliaid anwes) wrth gynnal busnes yn cynnwys cadw anifeiliaid wrth gynnal busnes gyda'r bwriad o'u gwerthu neu eu hailwerthu.

3. Nid yw gweithgaredd a ddisgrifir ym mharagraff 2 yn cynnwys—

- (a) gwerthu anifeiliaid wrth gynnal busnes cynhyrchu dyframaethol a awdurdodir o dan reoliad 5(1) o Reoliadau Iechyd Anifeiliaid Dyfrol (Cymru a Lloegr) 2009(1), neu
- (b) person sydd yn dal trwydded dan Reoliadau Lles Anifeiliaid (Bridio Cŵn) (Cymru) 2014 sydd yn gwerthu:
 - (i) ci bach y mae'r person wedi ei fridio ei hunain o'r fangre ble magwyd y ci bach hwnnw; neu
 - (ii) ci llawndwf y mae'r person wedi ei fridio eu hunain.

Licensable activities

PART 1 Business test

1. The circumstances which a local authority must take into account in determining whether an activity is being carried on in the course of a business for the purposes of this Schedule include, for example, whether the operator—

- (a) makes any sale by, or otherwise carries on, the activity with a view to making a profit, or
- (b) earns any commission or fee from the activity.

PART 2 Selling animals as pets

2. Selling animals as pets (or with a view to their being later resold as pets) in the course of a business including keeping animals in the course of a business with a view to their being sold or resold.

3. The activity described in paragraph 2 does not include—

- (a) selling animals in the course of an aquaculture production business authorised under regulation 5(1) of the Aquatic Animal Health (England and Wales) Regulations 2009(1), or
- (b) a person who is the holder of a licence under the Animal Welfare (Breeding of Dogs) (Wales) Regulations 2014 (2) selling;
 - (i) puppies the person has bred themselves from the premises where the puppy was bred, or;
 - (ii) adult dogs the person has bred themselves.

(1) O.S. 2009/463.

(1) S.I. 2009/463.

(2) S.I. 2014/3266 (W. 333)

ATODLEN 2 Rheoliad 2
Amodau cyffredinol

Arddangos trwydded

1.—(1) Rhaid i gopi o'r drwydded fod wedi ei arddangos yn glir ac yn amlwg ar unrhyw fangre lle y cynhelir y gweithgaredd trwyddedadwy.

(2) Rhaid i enw deiliad y drwydded, wedi ei ddilyn gan rif trwydded deiliad y drwydded, fod wedi eu harddangos yn glir ac yn amlwg ar unrhyw wefan a ddefnyddir mewn cysylltiad â'r gweithgaredd trwyddedadwy.

Cofnodion

2.—(1) Rhaid i ddeiliad y drwydded sicrhau bod yr holl gofnodion y mae'n ofynnol i ddeiliad y drwydded eu cadw fel un o amodau'r drwydded ar gael ar unrhyw adeg i'w harolygu gan arolygydd ar ffurf weladwy a darllenadwy neu, pan fo unrhyw gofnodion o'r fath yn cael eu storio ar ffurf electronig, ar ffurf y gellir cyflwyno'r cofnodion ar ffurf weladwy a darllenadwy yn rhwydd ohoni.

(2) Rhaid i ddeiliad y drwydded gadw'r holl gofnodion o'r fath am 3 blynedd o leiaf, gan ddechrau â'r dyddiad y crëwyd y cofnod.

Defnyddio anifeiliaid, nifer yr anifeiliaid a'r mathau o anifeiliaid

3.—(1) Ni chaniateir defnyddio unrhyw anifeiliaid, neu unrhyw fathau o anifeiliaid, ac eithrio'r anifeiliaid hynny a'r mathau hynny o anifeiliaid a bennir yn y drwydded, mewn perthynas â'r gweithgaredd trwyddedadwy perthnasol.

(2) Ni chaniateir i nifer yr anifeiliaid a gedwir ar gyfer y gweithgaredd trwyddedadwy ar unrhyw adeg fod yn fwy na'r uchafswm sy'n rhesymol gan ystyried y cyfleusterau a'r staffio ar unrhyw fangre lle y cynhelir y gweithgaredd trwyddedadwy.

Staffio

4.—(1) Rhaid i niferoedd digonol o bobl sy'n gymwys at y diben fod ar gael i ddarparu lefel o ofal sy'n sicrhau y diwellir anghenion lles pob anifail.

(2) Rhaid i ddeiliad y drwydded neu reolwr dynodedig ac unrhyw staff a gyflogir i ofalu am yr anifeiliaid feddu ar gymhwysedd i adnabod ymddygiad arferol y rhywogaethau o dan eu gofal ac i adnabod arwyddion poen, dioddefaint, anaf, clefyd neu ymddygiad annormal, ac i gymryd camau priodol i liniaru neu atal yr effeithiau hynny.

SCHEDULE 2 Regulation 2
General conditions

Licence display

1.—(1) A copy of the licence must be clearly and prominently displayed on any premises on which the licensable activity is carried on.

(2) The name of the licence holder followed by the number of the licence holder's licence must be clearly and prominently displayed on any website used in respect of the licensable activity.

Records

2.—(1) The licence holder must ensure that at any time all the records that the licence holder is required to keep as a condition of the licence are available for inspection by an inspector in a visible and legible form or, where any such records are stored in electronic form, in a form from which they can readily be produced in a visible and legible form.

(2) The licence holder must keep all such records for at least 3 years beginning with the date on which the record was created.

Use, number and type of animal

3.—(1) No animals or types of animal other than those animals and types of animal specified in the licence may be used in relation to the relevant licensable activity.

(2) The number of animals kept for the licensable activity at any time must not exceed the maximum that is reasonable taking into account the facilities and staffing on any premises on which the licensable activity is carried on.

Staffing

4.—(1) Sufficient numbers of people who are competent for the purpose must be available to provide a level of care that ensures that the welfare needs of all the animals are met.

(2) The licence holder or a designated manager and any staff employed to care for the animals must have competence to identify the normal behaviour of the species for which they are caring and to recognise signs of, and take appropriate measures to mitigate or prevent, pain, suffering, injury, disease or abnormal behaviour.

(3) Rhaid i ddeiliad y drwydded ddarparu polisi hyfforddiant ysgrifenedig, sy'n cydymffurfio â gofynion paragraff 9 ar gyfer yr holl staff, a sicrhau y rhoddir y polisi hwnnw ar waith.

Amgylchedd addas

5.—(1) Rhaid i bob ardal, cyfarpar ac offer y mae gan yr anifeiliaid fynediad iddynt beri'r risgiau lleiaf posibl o achosi anaf, salwch a dianc, a rhaid iddynt fod wedi eu hadeiladu o ddeunydd cadarn, diogel a gwydn, bod mewn cyflwr da a bod wedi eu cynnal a'u cadw'n dda.

(2) Rhaid cadw anifeiliaid ar bob adeg mewn amgylchedd sy'n addas i'w rhywogaeth a'u cyflwr (gan gynnwys statws iechyd ac oedran) mewn cysylltiad ag—

- (a) eu hanghenion ymddygiadol;
- (b) ei sefyllfa, faint o le sydd ar gael, ansawdd yr aer, glendid a'r tymheredd;
- (c) ansawdd y dŵr (pan fo'n berthnasol);
- (d) lefelau sŵn;
- (e) lefelau goleuni;
- (f) awyriad.

(3) Rhaid i staff sicrhau bod yr anifeiliaid yn cael eu cadw'n lân ac yn gyfforddus.

(4) Pan fo'n briodol i'r rhywogaeth, rhaid darparu ardal doiled a chyfleoedd i'r anifeiliaid fynd i'r toiled.

(5) Rhaid i weithdrefnau fod yn eu lle i sicrhau bod y llety ac unrhyw gyfarpar ynddo yn cael eu glanhau mor aml ag y bo'n angenrheidiol, ac y cynhelir safonau hylendid da, a rhaid bod yn bosibl i lanhau a diheintio'r llety yn drwyadl.

(6) Rhaid cludo a thrin yr anifeiliaid mewn modd (gan gynnwys, er enghraifft, mewn perthynas â llety, tymheredd, awyru ac amllder) sy'n eu diogelu rhag poen, dioddefaint, anafiadau a chlefydau.

(7) Rhaid i'r holl anifeiliaid fod yn hygyrch i'r staff ac ar gyfer arolygu a rhaid bod digon o oleuni i'r staff weithio'n effeithiol ac arsylwi ar yr anifeiliaid.

(8) Rhaid darparu'r holl adnoddau mewn ffordd (er enghraifft o ran amllder, lleoliad a mynedfeydd) sy'n lleihau ymddygiad cystadleuol neu oruchafiaeth anifeiliaid unigol.

(9) Ni chaniateir gadael yr anifeiliaid heb neb i ofalu amdanynt mewn unrhyw sefyllfa, nac am unrhyw gyfnod, sy'n debygol o beri gofid iddynt.

(3) The licence holder must provide and ensure the implementation of a written training policy, which complies with the requirements of paragraph 9, for all staff.

Suitable environment

5.—(1) All areas, equipment and appliances to which the animals have access must present minimal risks of injury, illness and escape and must be constructed in materials that are robust, safe and durable, in a good state of repair and well maintained.

(2) Animals must be kept at all times in an environment suitable to their species and condition (including health status and age) with respect to—

- (a) their behavioural needs;
- (b) its situation, space, air quality, cleanliness and temperature;
- (c) the water quality (where relevant);
- (d) noise levels;
- (e) light levels;
- (f) ventilation.

(3) Staff must ensure that the animals are kept clean and comfortable.

(4) Where appropriate for the species, a toileting area and opportunities for toileting must be provided.

(5) Procedures must be in place to ensure accommodation and any equipment within it is cleaned as often as necessary and good hygiene standards are maintained and the accommodation must be capable of being thoroughly cleaned and disinfected.

(6) The animals must be transported and handled in a manner (including for example in relation to housing, temperature, ventilation and frequency) that protects them from pain, suffering, injury and disease.

(7) All the animals must be easily accessible to staff and for inspection and there must be sufficient light for the staff to work effectively and observe the animals.

(8) All resources must be provided in a way (for example as regards, frequency, location and access points) that minimises competitive behaviour or the dominance of individual animals.

(9) The animals must not be left unattended in any situation or for any period likely to cause them distress.

Deiet addas

6.—(1) Rhaid darparu deiet i'r anifeiliaid sy'n addas o ran ansawdd, maint ac amllder, a rhaid cyflwyno unrhyw fwydydd anifeiliaid newydd yn raddol er mwyn caniatáu i'r anifeiliaid ddod i arfer â hwy.

(2) Rhaid monitro cymeriant bwyd anifeiliaid a (pan fo'n briodol) dŵr, a rhaid cofnodi unrhyw broblemau a mynd i'r afael â hwy.

(3) Rhaid i'r bwyd anifeiliaid â'r dŵr yfed a ddarperir i'r anifeiliaid fod heb ei ddifetha a heb ei halogi.

(4) Rhaid gallu glanhau a diheintio daliedyddion bwyd anifeiliaid a dŵr yfed, neu rhaid iddynt fod yn rhai untro.

(5) Rhaid darparu mynediad parhaus i ddŵr yfed ffres a glân mewn daliedydd addas i'r rhywogaethau sydd ei angen.

(6) Pan fo bwyd anifeiliaid yn cael ei baratoi ar y fangre lle y cynhelir y gweithgaredd trwyddedadwy, rhaid bod cyfleusterau hylan ar gael ar gyfer ei baratoi, gan gynnwys arwyneb gwaith, dŵr rhedegog poeth ac oer a chyfleusterau storio.

Monitro ymddygiad a hyfforddi anifeiliaid

7.—(1) Rhaid cyfoethogi'r amgylchedd mewn ffordd weithredol ac effeithiol i'r anifeiliaid sydd yn unrhyw amgylcheddau dan do ac yn yr awyr agored.

(2) O ran rhywogaethau y mae eu lles yn dibynnu'n rhannol ar ymarfer corff, rhaid darparu cyfleoedd ymarfer corff sy'n llesol i iechyd corfforol a meddyliol yr anifeiliaid, oni bai bod cyngor gan filfeddyg yn awgrymu fel arall.

(3) Rhaid monitro ymddygiad yr anifeiliaid ac unrhyw newidiadau o ran eu hymddygiad a rhaid gofyn am gyngor, fel y bo'n briodol ac yn ddi-oed, gan filfeddyg neu, yn achos pysgod, gan unrhyw berson sy'n gymwys i roi cyngor o'r fath, os canfyddir ymddygiad andwyol neu annormal.

(4) Pan fônt yn cael eu defnyddio, ni chaniateir i ddulliau hyfforddi neu gyfarpar hyfforddi achosi poen, dioddefaint neu anaf.

(5) Rhaid rhoi cyfleoedd addas a digonol i bob anifail anaeddfed—

- (a) dysgu sut i ryngweithio â phobl, â'i rywogaeth ei hun ac ag anifeiliaid eraill pan fo rhyngweithio o'r fath yn fuddiol i'w les, a
- (b) ymgynffwrdd â seiniau, gwrthrychau a gweithgareddau yn ei amgylchedd.

Suitable diet

6.—(1) The animals must be provided with a suitable diet in terms of quality, quantity and frequency and any new feeds must be introduced gradually to allow the animals to adjust to them.

(2) Feed and (where appropriate) water intake must be monitored, and any problems recorded and addressed.

(3) Feed and drinking water provided to the animals must be unspoilt and free from contamination.

(4) Feed and drinking receptacles must be capable of being cleaned and disinfected, or disposable.

(5) Constant access to fresh, clean drinking water must be provided in a suitable receptacle for the species that requires it.

(6) Where feed is prepared on the premises on which the licensable activity is carried on, there must be hygienic facilities for its preparation, including a working surface, hot and cold running water and storage.

Monitoring of behaviour and training of animals

7.—(1) Active and effective environmental enrichment must be provided to the animals in inside and any outside environments.

(2) For species whose welfare depends partly on exercise, opportunities to exercise which benefit the animals' physical and mental health must be provided, unless advice from a veterinary surgeon suggests otherwise.

(3) The animals' behaviour and any changes of behaviour must be monitored and advice must be sought, as appropriate and without delay, from a veterinary surgeon or, in the case of fish, any person competent to give such advice if adverse or abnormal behaviour is detected.

(4) Where used, training methods or equipment must not cause pain, suffering or injury.

(5) All immature animals must be given suitable and adequate opportunities to—

- (a) learn how to interact with people, their own species and other animals where such interaction benefits their welfare, and
- (b) become habituated to noises, objects and activities in their environment.

Trin anifeiliaid a rhyngweithio ag anifeiliaid

8.—(1) Rhaid i'r holl bobl sy'n gyfrifol am ofalu am yr anifeiliaid fod yn gymwys o ran trin pob anifail yn briodol i'w ddiogelu rhag poen, dioddefaint, anaf neu glefyd.

(2) Rhaid cadw'r anifeiliaid ar wahân neu mewn grwpiau cymdeithasol cydnaws addas sy'n briodol i'r rhywogaeth ac i'r anifeiliaid unigol ac ni chaniateir i unrhyw anifeiliaid o rywogaeth gymdeithasol gael eu hynysu na'u cadw ar wahân oddi wrth anifeiliaid eraill o'r un rywogaeth am unrhyw gyfnod sy'n hwy nag y bo'n angenrheidiol.

(3) Rhaid i anifeiliaid gael cyfleoedd o leiaf bob dydd i ryngweithio â phobl pan fo'r rhyngweithio hwnnw yn llesol iddynt.

Diogelu rhag poen, dioddefaint, anafiadau a chlefydau

9.—(1) Rhaid i weithdrefnau ysgrifenedig—

- (a) bod yn eu lle ac ar waith o ran—
 - (i) cyfundrefnau bwydo;
 - (ii) cyfundrefnau glanhau;
 - (iii) cludiant;
 - (iv) atal clefydau a rheoli eu lledaeniad;
 - (v) monitro a sicrhau iechyd a lles yr holl anifeiliaid;
 - (vi) anifail yn marw neu yn dianc (gan gynnwys storio carcasau);
- (b) bod yn eu lle o ran gofalu am yr anifeiliaid yn dilyn atal dros dro neu ddirymu'r drwydded neu yn ystod argyfwng ac ar ôl argyfwng.

(2) Rhaid sicrhau bod yr holl bobl sy'n gyfrifol am ofalu am yr anifeiliaid yn llwyr ymwybodol o'r gweithdrefnau hyn.

(3) Rhaid i gyfleusterau ynysu priodol, mewn cyfleusterau hunangynhwysol ar wahân, fod ar gael i ofalu am anifeiliaid sâl, anifeiliaid a anafwyd neu anifeiliaid a all fod yn heintus.

(4) Rhaid cymryd pob rhagofal rhesymol i atal a rheoli lledaeniad clefydau heintus, pathogenau a pharasitiaid ymhlith yr anifeiliaid ac ymhlith pobl.

(5) Rhaid storio a gwaredu'r holl garthion a'r holl wasarn budr mewn modd hylan ac yn unol ag unrhyw ddeddfwriaeth berthnasol.

(6) Rhaid i anifeiliaid sy'n sâl neu wedi eu hanafu gael sylw prydlon gan filfeddyg neu, yn achos pysgod, gan berson cymwys priodol, a rhaid dilyn cyngor y milfeddyg hwnnw neu, yn achos pysgod, y person cymwys hwnnw.

Animal handling and interactions

8.—(1) All people responsible for the care of the animals must be competent in the appropriate handling of each animal to protect it from pain, suffering, injury or disease.

(2) The animals must be kept separately or in suitable compatible social groups appropriate to the species and individual animals and no animals from a social species may be isolated or separated from others of their species for any longer than is necessary.

(3) The animals must have at least daily opportunities to interact with people where such interaction benefits their welfare.

Protection from pain, suffering, injury and disease

9.—(1) Written procedures must—

- (a) be in place and implemented covering—
 - (i) feeding regimes;
 - (ii) cleaning regimes;
 - (iii) transportation;
 - (iv) the prevention of, and control of the spread of, disease;
 - (v) monitoring and ensuring the health and welfare of all the animals;
 - (vi) the death or escape of an animal (including the storage of carcasses);
- (b) be in place covering the care of the animals following the suspension or revocation of the licence or during and following an emergency.

(2) All people responsible for the care of the animals must be made fully aware of these procedures.

(3) Appropriate isolation, in separate self-contained facilities, must be available for the care of sick, injured or potentially infectious animals.

(4) All reasonable precautions must be taken to prevent and control the spread among the animals and people of infectious diseases, pathogens and parasites.

(5) All excreta and soiled bedding for disposal must be stored and disposed of in a hygienic manner and in accordance with any relevant legislation.

(6) Sick or injured animals must receive prompt attention from a veterinary surgeon or, in the case of fish, an appropriately competent person and the advice of that veterinary surgeon or, in the case of fish, that competent person must be followed.

(7) Pan fo'n angenrheidiol, rhaid i anifeiliaid dderbyn triniaeth ataliol gan berson cymwys priodol.

(8) Rhaid i ddeiliad y drwydded gofrestru â milfeddyg sy'n meddu ar lefel briodol o brofiad ym maes gofynion iechyd a lles unrhyw anifeiliaid a bennir yn y drwydded, a rhaid i fanylion cyswllt y milfeddyg hwnnw fod ar gael yn rhwydd i'r holl staff ar y fangre lle y cynhelir y gweithgaredd trwyddedadwy.

(9) Rhaid storio meddyginiaethau ar brescripsiwn yn saff ac yn ddiogel er mwyn eu diogelu rhag mynediad heb awdurdod, ar y tymheredd cywir, a rhaid iddynt gael eu defnyddio yn unol â chyfarwyddiadau'r milfeddyg.

(10) Rhaid i feddyginiaethau ac eithrio meddyginiaethau ar brescripsiwn gael eu storio, eu defnyddio a'u gwaredu yn unol â chyfarwyddiadau'r gwneuthurwr neu'r milfeddyg.

(11) Rhaid i gynnyrch glanhau fod yn addas, yn ddiogel ac yn effeithiol yn erbyn pathogenau sy'n peri risg i'r anifeiliaid, a rhaid iddynt gael eu defnyddio, eu storio a'u gwaredu yn unol â chyfarwyddiadau'r gwneuthurwr a'u defnyddio mewn ffordd sy'n atal gofid neu ddiodefaint i'r anifeiliaid.

(12) Ni chaniateir i unrhyw berson ewthaneiddio anifail ac eithrio milfeddyg neu berson a awdurdodwyd gan filfeddyg yn berson cymwys at y diben hwnnw neu yn achos pysgod, person sy'n gymwys at y diben hwnnw.

(13) Rhaid archwilio pob anifail o leiaf unwaith bob dydd, ac yn fwy rheolaidd fel y bo'n angenrheidiol i chwilio am unrhyw arwyddion poen, diodefaint, anafiadau, clefydau neu ymddygiad annormal, a rhaid archwilio anifeiliaid hyglwyf yn fwy aml.

(14) Rhaid cofnodi unrhyw arwyddion poen, diodefaint, anafiadau, clefydau neu ymddygiad annormal, a rhaid gofyn am gyngor, a chyngor pellach (os oes angen) gan filfeddyg (neu yn achos pysgod, gan berson cymwys priodol) a dilyn y cyngor hwnnw.

Argyfyngau

10.—(1) Rhaid i gynllun argyfwng ysgrifenedig sy'n dderbyniol i'r awdurdod lleol fod yn ei le, yn hysbys ac ar gael i'r holl staff ar y fangre lle y cynhelir y gweithgaredd trwyddedadwy, a rhaid dilyn y cynllun hwnnw pan fo'n angenrheidiol i sicrhau y cymerir camau priodol i ddiogelu yr holl bobl ac anifeiliaid ar y fangre yn achos tân neu pe bai systemau gwresogi, awyru ac awyriad neu hidlo hanfodol yn torri i lawr, neu argyfyngau eraill yn codi.

(7) Where necessary, animals must receive preventative treatment by an appropriately competent person.

(8) The licence holder must register with a veterinary surgeon with an appropriate level of experience in the health and welfare requirements of any animals specified in the licence and the contact details of that veterinary surgeon must be readily available to all staff on the premises on which the licensable activity is carried on.

(9) Prescribed medicines must be stored safely and securely to safeguard against unauthorised access, at the correct temperature, and used in accordance with the instructions of the veterinary surgeon.

(10) Medicines other than prescribed medicines must be stored, used and disposed of in accordance with the instructions of the manufacturer or veterinary surgeon.

(11) Cleaning products must be suitable, safe and effective against pathogens that pose a risk to the animals and must be used, stored and disposed of in accordance with the manufacturer's instructions and used in a way which prevents distress or suffering of the animals.

(12) No person may euthanize an animal except a veterinary surgeon or a person who has been authorised by a veterinary surgeon as competent for such purpose or in the case of fish, a person who is competent for such purpose.

(13) All animals must be checked at least once daily and more regularly as necessary to check for any signs of pain, suffering, injury, disease or abnormal behaviour and vulnerable animals must be checked more frequently.

(14) Any signs of pain, suffering, injury, disease or abnormal behaviour must be recorded and the advice and further advice (if necessary) of a veterinary surgeon (or in the case of fish, of an appropriately competent person) must be sought and followed.

Emergencies

10.—(1) A written emergency plan, acceptable to the local authority, must be in place, known and available to all the staff on the premises on which the licensable activity is carried on, and followed where necessary to ensure appropriate steps are taken to protect all the people and animals on the premises in case of fire or in case of breakdown of essential heating, ventilation and aeration or filtration systems or other emergencies.

(2) Rhaid i'r cynllun gynnwys manylion y camau sydd i'w cymryd mewn argyfwng i fynd â'r anifeiliaid ymaith pe bai'r fangre yn mynd i gyflwr nad yw'n addas i fyw ynddo, a rhestr o rifau ffôn mewn argyfwng sy'n cynnwys y gwasanaeth tân a'r heddlu.

(3) Rhaid i ddrysau a gatiâu allanol fod yn gloadwy.

(4) Rhaid i ddeiliad allweddig dynodedig sydd â mynediad i'r holl fannau i anifeiliaid ar bob adeg fod o fewn pellter teithio rhesymol i'r fangre ac ar gael i fod yn bresennol mewn argyfwng.

(2) The plan must include details of the emergency measures to be taken for the extrication of the animals should the premises become uninhabitable and an emergency telephone list that includes the fire service and police.

(3) External doors and gates must be lockable.

(4) A designated key holder with access to all animal areas must at all times be within reasonable travel distance of the premises and available to attend in an emergency.

ATODLEN 3 Rheoliad 2

Amodau penodol: gwerthu anifeiliaid fel anifeiliaid anwes

Dehongli

1. Yn yr Atodlen hon—

ystyr “darpar berchennog” (“*prospective owner*”) yw person sy'n prynu anifail i'w gadw neu i gael ei gadw fel anifail anwes;

ystyr “mangre” (“*premises*”) yw'r fangre lle y cynhelir y gweithgaredd trwyddedadwy o werthu anifeiliaid fel anifeiliaid anwes (neu gyda'r bwriad o'u hailwerthu'n ddiweddarach fel anifeiliaid anwes);

ystyr “prynwr” (“*purchaser*”) yw person sy'n prynu anifail i'w gadw fel anifail anwes neu gyda'r bwriad o'i ailwerthu'n ddiweddarach fel anifail anwes.

Cofnodion a hysbysebion

2.—(1) Rhaid cadw cofrestr o'r holl anifeiliaid, neu yn achos pysgod, yr holl grwpiau o bysgod, ar y fangre, a rhaid iddi gynnwys—

- (a) enw llawn cyflenwr yr anifail,
- (b) rhyw yr anifail (pan fo'n hysbys),
- (c) (ac eithrio yn achos pysgod) oedran yr anifail (pan fo'n hysbys),
- (d) manylion unrhyw driniaeth filfeddygol (pan fo'n hysbys),
- (e) dyddiad geni'r anifail neu, os caffaelwyd yr anifail gan ddeiliad y drwydded, dyddiad ei gaffael,
- (f) dyddiad gwerthu'r anifail gan ddeiliad y drwydded, ac
- (g) dyddiad marwolaeth yr anifail (os yw'n gymwys).

SCHEDULE 3 Regulation 2

Specific conditions: selling animals as pets

Interpretation

1. In this Schedule—

“prospective owner” (“*darpar berchennog*”) means a person purchasing an animal to keep or to be kept as a pet;

“premises” (“*mangre*”) means the premises on which the licensable activity of selling animals as pets (or with a view to their being later resold as pets) is carried on;

“purchaser” (“*prynwr*”) means a person purchasing an animal to keep as a pet or with a view to it later being resold as a pet.

Records and advertisements

2.—(1) A register must be maintained for all the animals or, in the case of fish, all the groups of fish, on the premises which must include—

- (a) the full name of the supplier of the animal,
- (b) the animal's sex (where known),
- (c) (except in the case of fish) the animal's age (where known),
- (d) details of any veterinary treatment (where known),
- (e) the date of birth of the animal or, if the animal was acquired by the licence holder, the date of its acquisition,
- (f) the date of the sale of the animal by the licence holder, and
- (g) the date of the animal's death (if applicable).

(2) Pan fo anifail yn cael unrhyw driniaeth feddygol—

- (a) rhaid nodi'r ffaith honno yn glir—
 - (i) yn ysgrifenedig nesaf ato, neu
 - (ii) (pan fo'n briodol) drwy ei labelu yn unol â hynny, a
- (b) ni chaniateir ei werthu.

(3) Rhaid i unrhyw hysbyseb ar gyfer gwerthu anifail—

- (a) cynnwys rhif trwydded deiliad y drwydded,
- (b) pennu'r awdurdod lleol a ddyroddodd y drwydded,
- (c) cynnwys ffotograff adnabyddadwy o'r anifail sy'n cael ei hysbysebu,
- (d) (ac eithrio yn achos pysgod) dangos oedran yr anifail sy'n cael ei hysbysebu,
- (e) datgan ym mha wlad y mae'r anifail yn byw ac y mae'n cael ei werthu ohoni, ac
- (f) datgan y wlad y mae'r anifail yn tarddu ohoni.

Darpar werthiannau: gofal anifeiliaid anwes a chynngor ynghylch hynny

3.—(1) Rhaid i ddeiliad y drwydded a'r holl staff sicrhau bod unrhyw gyfarpar ac ategolion sy'n cael eu gwerthu gydag anifail yn addas i'r anifail.

(2) Rhaid i ddeiliad y drwydded a'r holl staff sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei darparu i'r darpar berchennog ar ofal priodol yr anifail gan gynnwys mewn perthynas â—

- (a) bwydo,
- (b) llety,
- (c) trin,
- (d) hwsmonaeth,
- (e) disgwyliad oes ei rywogaeth,
- (f) darparu ategolion addas, ac
- (g) gofal milfeddygol.

(3) Rhaid i ddeunyddiau cyfeirio priodol ynghylch gofal yr holl anifeiliaid sydd ar werth gael eu harddangos a'u darparu i'r darpar berchennog.

(4) Rhaid bod deiliad y drwydded a'r holl staff wedi cael hyfforddiant addas i roi cynngor i ddarpar berchnogion ynghylch yr anifeiliaid sy'n cael eu gwerthu.

(5) Rhaid i ddeiliad y drwydded a'r holl staff sicrhau bod y prynwr yn cael ei hysbysu ynghylch y wlad y mae'r anifail yn tarddu ohoni a'i rywogaeth, a phan fo'n hysbys, oedran, rhyw a chofnod milfeddygol yr anifail sy'n cael ei werthu.

(2) Where an animal is undergoing any medical treatment—

- (a) this fact must be clearly indicated—
 - (i) in writing next to it, or
 - (ii) (where appropriate) by labelling it accordingly, and
- (b) it must not be sold.

(3) Any advertisement for the sale of an animal must—

- (a) include the number of the licence holder's licence,
- (b) specify the local authority that issued the licence,
- (c) include a recognisable photograph of the animal being advertised,
- (d) (except in the case of fish) display the age of the animal being advertised,
- (e) state the country of residence of the animal from which it is being sold, and
- (f) state the country of origin of the animal.

Prospective sales: pet care and advice

3.—(1) The licence holder and all staff must ensure that any equipment and accessories being sold with an animal are suitable for the animal.

(2) The licence holder and all staff must ensure that the prospective owner is provided with information on the appropriate care of the animal including in relation to—

- (a) feeding,
- (b) housing,
- (c) handling,
- (d) husbandry,
- (e) the life expectancy of its species,
- (f) the provision of suitable accessories, and
- (g) veterinary care.

(3) Appropriate reference materials on the care of all animals for sale must be on display and provided to the prospective owner.

(4) The licence holder and all staff must have been suitably trained to advise prospective owners about the animals being sold.

(5) The licence holder and all staff must ensure that the purchaser is informed of the country of origin of the animal and the species, and where known, the age, sex and veterinary record of the animal being sold.

Llety addas

4.—(1) Rhaid cadw anifeiliaid mewn llety sy'n lleihau straen, gan gynnwys straen a achosir gan anifeiliaid eraill a'r cyhoedd.

(2) Pan fo aelodau o'r cyhoedd yn gallu gweld yr anifeiliaid neu ddod i gysylltiad â hwy, rhaid bod arwyddion wedi eu gosod i annog pobl i beidio ag aflonyddu ar yr anifeiliaid.

(3) Rhaid cadw anifeiliaid gwyllt peryglus (os oes rhai) mewn caetsys sy'n ddiogel ac y gellir eu cloi ac sy'n addas ar gyfer y rhywogaeth.

(4) At ddibenion is-baragraff (3), ystyr "anifail gwyllt peryglus" yw anifail o fath a bennir yng ngholofn gyntaf yr Atodlen i Ddeddf Anifeiliaid Gwyllt Peryglus 1976(1).

Gwerthu anifeiliaid

5.—(1) Ni chaniateir i unrhyw anifail o'r disgrifiadau a ganlyn gael ei werthu fel anifail anwes, neu ei werthu gyda'r bwriad o'i ailwerthu fel anifail anwes, gan ddeiliad y drwydded neu ar ei ran—

- (a) mamaliaid heb eu diddyfnu;
- (b) mamaliaid a ddidddyfnwyd ar oedran na ddylent fod wedi eu diddyfnu arno;
- (c) anifeiliaid nad ydynt yn famaliaid nad ydynt yn gallu bwydo eu hunain;
- (d) cŵn bach, cathod bach, ffuredau neu gwningod iau nag 8 wythnos oed;
- (e) cŵn bach neu gathod bach nad oeddent wedi eu bridio gan ddeiliad y drwydded yn y fangre.

(2) Rhaid cwblhau gwerthiant ci yng ngŵydd y prynwr ar y fangre.

Diogelu rhag poen, dioddefaint, anafiadau a chlefydau

6.—(1) Rhaid i'r holl anifeiliaid sydd ar werth fod mewn cyflwr da o ran eu hiechyd.

(2) Ni chaniateir i unrhyw anifail sydd â chyflwr sy'n debygol o effeithio ar ansawdd ei fywyd gael ei symud, ei drosglwyddo neu ei gynnig ar werth, ond caniateir ei symud i gyfleuster ynysu neu gyfleuster gofal milfeddygol os yw hynny'n angenrheidiol hyd nes i'r anifail wella.

(3) Wrth drefnu i dderbyn anifeiliaid, rhaid i ddeiliad y drwydded wneud ymdrechion rhesymol i sicrhau y cânt eu cludo mewn dull addas.

Suitable accommodation

4.—(1) Animals must be kept in housing which minimises stress including from other animals and the public.

(2) Where members of the public can view or come into contact with the animals, signage must be in place to deter disturbance of the animals.

(3) Dangerous wild animals (if any) must be kept in cages that are secure and lockable and appropriate for the species.

(4) For the purposes of sub-paragraph (3), "dangerous wild animal" means an animal of a kind specified in the first column of the Schedule to the Dangerous Wild Animals Act 1976(1).

Sale of animals

5.—(1) No animal of any of the following descriptions may be sold as a pet, or sold with a view to being resold as a pet, by or on behalf of the licence holder—

- (a) unweaned mammals;
- (b) mammals weaned at an age at which they should not have been weaned;
- (c) non-mammals that are incapable of feeding themselves;
- (d) puppies, kittens, ferrets or rabbits, aged under 8 weeks;
- (e) puppies or kittens which were not bred by the licence holder at the premises.

(2) The sale of a dog must be completed in the presence of the purchaser on the premises.

Protection from pain, suffering, injury and disease

6.—(1) All animals for sale must be in good health.

(2) Any animal with a condition which is likely to affect the quality of life must not be moved, transferred or offered for sale but may be moved to an isolation facility or veterinary care facility if required until the animal has recovered.

(3) When arranging for the receipt of animals, the licence holder must make reasonable efforts to ensure that they will be transported in a suitable manner.

(1) 1976 p. 38. Amnewidiwyd yr Atodlen o ran Cymru a Lloegr gan erthygl 2 o O.S. 2007/2465.

(1) 1976 c. 38. The Schedule was substituted in relation to England and Wales by article 2 of S.I. 2007/2465.

(4) Rhaid cludo anifeiliaid neu eu traddodi i brynwyr mewn cynwysyddion addas ar gyfer y rhywogaeth a hyd disgwylidig y daith.

ATODLEN 4 Rheoliad 10

Personau na chaniateir iddynt wneud cais am drwydded

1. Person a oedd ar unrhyw adeg yn ddeiliad trwydded a ddirymwyd o dan reoliad 14 o'r Rheoliadau hyn.

2. Person sydd wedi ei anghymwyso o dan adran 33 o Ddeddf Llesiant Anifeiliaid (Gogledd Iwerddon) 2011(1).

3. Person sydd wedi ei anghymwyso o dan adran 34 o'r Ddeddf.

4. Person sydd wedi ei anghymwyso o dan adran 40(1) a (2) o Ddeddf Iechyd a Lles Anifeiliaid (Yr Alban) 2006(2).

5. Person sydd wedi ei anghymwyso o dan adran 6(2) o Ddeddf Anifeiliaid Gwyllt Peryglus 1976(3) rhag cadw anifail gwyllt peryglus.

6. Person sydd wedi ei anghymwyso o dan adran 5(3) o Ddeddf Anifeiliaid Anwes 1951(4) rhag cadw siop anifeiliaid anwes.

7. Person sydd wedi ei anghymwyso o dan adran 1(1) o Ddeddf Diogelu Anifeiliaid (Diwygio) 1954(5) rhag cael gwarchodaeth anifail.

8. Person sydd wedi ei anghymwyso o dan adran 3 o Ddeddf Diogelu Anifeiliaid 1911(6) rhag bod yn berchen ar anifail.

(4) Animals must be transported or handed to purchasers in suitable containers for the species and expected duration of the journey.

SCHEDULE 4 Regulation 10

Persons who may not apply for a licence

1. A person who has at any time held a licence which was revoked under regulation 14 of these Regulations.

2. A person who is disqualified under section 33 of the Welfare of Animals Act (Northern Ireland) 2011(1).

3. A person who is disqualified under section 34 of the Act.

4. A person who is disqualified under section 40(1) and (2) of the Animal Health and Welfare (Scotland) Act 2006(2).

5. A person who is disqualified under section 6(2) of the Dangerous Wild Animals 1976(3) from keeping a dangerous wild animal.

6. A person who is disqualified under section 5(3) of the Pet Animals Act 1951(4) from keeping a pet shop.

7. A person who is disqualified under section 1(1) of the Protection of Animals (Amendment) Act 1954(5) from having custody of an animal.

8. A person who is disqualified under section 3 of the Protection of Animals Act 1911(6) from the ownership of an animal.

(1) 2011 p. 16.

(2) 2006 dsa 11.

(3) 1976 p. 38; diwygiwyd adran 6(2) ond nid yw'r diwygiadau yn berthnasol.

(4) Diwygiwyd adran 5(3) gan baragraff 3(2) o Atodlen 3 i Ddeddf Lles Anifeiliaid 2006.

(5) 1954 p. 40 (2 & 3 Eliz 2); diddymwyd adran 1 gan Atodlen 4 i Ddeddf Lles Anifeiliaid 2006.

(6) 1911 p. 27 (1 & 2 Geo 5); diddymwyd adran 3 gan Atodlen 4 i Ddeddf Lles Anifeiliaid 2006.

(1) 2011 c. 16.

(2) 2006 asp 11.

(3) 1976 c. 38; section 6(2) has been amended but the amendments are not relevant.

(4) Section 5(3) was amended by paragraph 3(2) of Schedule 3 to the Animal Welfare Act 2006.

(5) 1954 c. 40 (2 & 3 Eliz 2); section 1 was repealed by Schedule 4 to the Animal Welfare Act 2006.

(6) 1911 c. 27 (1 & 2 Geo 5); section 3 was repealed by Schedule 4 to the Animal Welfare Act 2006.

Diddymiadau a diwygiadau canlyniadol

Deddf Anifeiliaid Anwes 1951

1. Mae adran 1(1) o Ddeddf Anifeiliaid Anwes 1951 (cyfyngiad ar gadw siop anifeiliaid anwes) yn peidio â chael effaith o ran Cymru.

Rheoliadau Lles Anifeiliaid (Trwyddedu Gweithgareddau sy'n Ymwneud ag Anifeiliaid) (Lloegr) 2018

2. Yn Atodlen 6(1)(c)(ii) i Reoliadau Lles Anifeiliaid (Trwyddedu Gweithgareddau sy'n Ymwneud ag Anifeiliaid) (Lloegr) 2018(1), yn lle “the Pet Animals Act 1951 to keep the shop” rhodder “regulations 2 and 4 of the Animal Welfare (Licensing of Activities Involving Animals) (Wales) Regulations 2021”.

©©Hawlfraint y Goron 2021

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Jeff James, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

Repeals and consequential amendments

Pet Animals Act 1951

1. The Pet Animals Act 1951, section 1(1) (restriction on keeping a pet shop) ceases to have effect in relation to Wales.

Animal Welfare (Licensing of Activities Involving Animals) (England) Regulations 2018

2. In Schedule 6(1)(c)(ii) to the Animal Welfare (Licensing of Activities Involving Animals) (England) Regulations 2018(1), for “the Pet Animals Act 1951 to keep the shop” substitute “regulations 2 and 4 of the Animal Welfare (Licensing of Activities Involving Animals) (Wales) Regulations 2021”.


© Crown copyright 2021

Printed and published in the UK by The Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Jeff James, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

£6.90

<http://www.legislation.gov.uk/id/wsi/2021/416>

ISBN 978-0-348-20831-3



9 780348 208313